YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD


BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2026

## Dosbarth y Morlo

## Bant â ni i gynllunio!

Yn yr uned hon, ein nod yw annog disgyblion i fod yn chwilfrydig, i ofyn cwestiynau ac i ddarganfod mwy am ddiwylliant Cymru a diwylliannau gwledydd eraill. Rydym am feithrin gwerthfawrogiad o'n hunaniaeth a'n treftadaeth, gan greu ymdeimlad o berthyn a balchder. Byddwn hefyd yn annog dysgwyr i adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhyngom ni a'r byd ehangach. Bydd y disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio'r celfyddydau mynegiannol i fynegi eu hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Trwy'r broses greadigol, byddant yn cydweithio i greu gwaith sydd â gwerth diwylliannol, gan ddatblygu sgiliau creadigol a ffordd newydd o feddwl. Ein uchelgais yw meithrin lles ac annog ymdeimlad dwfn o falchder, gan rymuso pob dysgwr i fod yn hyderus, creadigol ac yn falch o'u hunaniaeth.




Beth mae pob
ol yn gwisgo i
ddathlu?
Aurora

Beth mae pobol yn bwyta
i ddathlu? Betsi

Beth ydyn ni'n gwn
eud am Ddydd Gŵ
yl Dewi Sant? Leo

Sut mae gwle
dydd eraill yn
dathlu'r flwyd
dyn newydd?
Willow

Hoffwn ddysgu sut mae gwle
dydd eraill yn canu 'pen-
blwydd hapus'. Tanwen

Hoffwn ddysgu dawns
o wlad arall. Sylvi

# Thema'r tymor yw: Hip Hip Hwrê! Hwyl a Gŵyl ar draws y byd! Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!
www.yggbrynymor.co.uk
Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!
@YGGBrynymor1

**Iechyd a Lles**

- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl
- Trafod sut y gallwn gadw ein cyrff yn iach.
- Parhau i ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a dysgu sut i ddanfon cyfathrebiad ar-lein syml.
- Trafod effaith dathliadau ar deimladau a'n lles emosiynol.
- Deall bod pobl yn gwerthfawrogi pethau gwahanol a dayblygu ymdeimlad o hunaniaeth.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

Astudio dawnsfeydd sy'n cael eu perfformio mewn gwyliau neu garnifalau. Dysgu symudiadau. Mwynhau perfformio.

Dysgu caneuon newydd, gwrando ar gerddoriaeth garnifal a chwarae patrymau syml ar offerynnau taro.

**Y Dyniaethau**

Dysgu am ystod o wyliau a dathliadau yng Nghymru ac o gwmpas y byd.
Mwynhau'r syniad o berthyn i'n cymuned leol ac i Gymru.
Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.
Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng Cymru a gwledydd eraill.
Dysgu am hanes Gŵyl Eid a Gŵyl y Pasg.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Dylunio a chreu eitem o fwyd ar gyfer dathliad arbennig.

Datblygu ein sgiliau codio drwy roi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy neu gan ddefnyddio rhaglen godio ar y cyfrifiadur.

Ewch i'r wefan i adran 'Gwaith Cartref' i weld bwydlen gwaith cartref y tymor.

Gwaith Cartref / Homework | Ysgol Gymraeg Bryn y Mor

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Creu cornel chwarae 'Siop Lluniau Llon' a mwynhau gwisgo i fyny, trafod arian a bod yn ffotograffwyr proffesiynol!

Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.

Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.

Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys **gwahoddiad, cerdd acrostig**.

Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu, cyfri mewn camau, lluosi a rhannu.
Defnyddio arian ac ymarfer rhoi newid.
Datblygu ein sgiliau darllen y cloc.
Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen a mwynhau datrys problemau.

**Ymweliadau/Profiadau**

Cymryd rhan mewn gweithdy dawns.

Y Cywaith Cloi

Cynllunio a threfnu dathliad ein hunain!